**Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth MID 03-01(p1a)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 13 Gorffennaf 2001 |
| **Amser:** | 10:30am hyd 1.00pm |
| **Lleoliad:** | Neuadd y Gymuned, Llanidloes |

## PWYLLGOR RHANBARTH Y CANOLBARTH

## ADRODDIAD I'R CYNULLIAD

### Rhagarweiniad

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth yn un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad. Mae Rheol Sefydlog 10 yn pennu cwmpas daearyddol y pwyllgorau a hefyd yn datgan eu cylch gwaith.
2. Cafodd y Pwyllgor ei gadeirio gan Elin Jones yn ystod y sesiwn a gychwynnodd ym mis Gorffennaf 2000, gan gymryd lle Glyn Davies. Bydd y Gadeiryddiaeth yn cael ei throsglwyddo i Gadeirydd newydd o fis Gorffennaf 2001. Yr aelodau eraill oedd Mick Bates, Nicholas Bourne, Cynog Dafis, Glyn Davies, Delyth Evans a Kirsty Williams. Mae'r Llywydd, yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas, wedi dewis peidio bod yn aelod o'r Pwyllgor. Cynhaliwyd 6 chyfarfod gan y Pwyllgor o fis Gorffennaf 2000 i fis Gorffennaf 2001. Cafodd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 30 Mawrth yn Llanidloes ei ohirio oherwydd argyfwng clwy'r traed a'r genau.

### Cylch Gwaith a Dull o Weithio

3. Cylch gwaith y pwyllgorau rhanbarth yw cynghori'r Cynulliad ar faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny a gwaith y cyrff cyhoeddus ynddynt.
4. Mae'r Pwyllgor wedi datblygu dull agored a chyfranogol o weithio gan gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus. Ceir crynodeb o'r eitemau a drafodwyd gan y Pwyllgor isod. Gwahoddodd nifer o gyrff o'r tu allan i gyfrannu at ei drafodaethau er enghraifft, Awdurdod Datblygu Cymru, Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, Asiantaeth Ieuenctid Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.
5. Mae'r Pwyllgor wedi cynnwys eitem ym mhob cyfarfod, lle mae'r cyhoedd a sefydliadau lleol yn gallu tynnu sylw'r Aelodau yn fyr at fater sy'n achosi pryder yn lleol neu at enghraifft o waith arloesol a wneir yn yr ardal. Cafwyd amrywiaeth eang o faterion a oedd yn cynnwys er

enghraifft, awyrennau sy'n hedfan yn isel; y problemau sy'n wynebu pobl ifanc yn yr ardaloedd gwledig; cadw ysgolion gwledig bychan a ffermydd gwynt yng Ngheredigion.

**Blaenoriaethau**

6. Mae agendâu'r Pwyllgor yn adlewyrchu ei nod o gadw cydbwysedd rhwng y blaenoriaethau a nodir yn www.gwellcymru.com ac ymateb i'r materion sy'n achosi pryder yn y cymunedau hynny y mae'r Aelodau'n eu cynrychioli. Felly, bu'r materion a drafodwyd yn gymysgedd o faterion strategol ac eitemau sy'n ymateb i bryderon lleol.

**Materion a drafodwyd (o fis Gorffennaf 2000 i fis Gorffennaf 2001)**

| **Dyddiad** | **Lleoliad:** | **Pwnc** |
|---|---|---|
| 7 Gorffennaf 2000 | Ystradgynlais | Trafododd y Pwyllgor faterion yn ymwneud â sgiliau a hyfforddiant a chafwyd cyflwyniad gan Gyngor Hyfforddiant a Menter y Canolbarth a oedd yn canolbwyntio ar y newidiadau yn y maes addysg ar ôl 16 oed.<br><br>Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Gyd-drefnydd Coed Cymru hefyd. |
| 20 Hydref | Llanbedr Pont Steffan | Trafododd y Pwyllgor adfywio economaidd a chymunedol yn y Canolbarth a *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf*, a chafwyd cyflwyniadau gan grwpiau cymuned, llywodraeth leol ac Is-adran y Canolbarth, Awdurdod Datblygu Cymru. |
| 1 Rhagfyr | Y Bala | Trafododd y Pwyllgor Raglenni Gwella Iechyd, a chafwyd cyflwyniadau gan Awdurdod Iechyd Dyfed Powys a'r Cynghorau Iechyd Cymuned lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| 2 Chwefror 2001 | Three Cocks | Trafododd y Pwyllgor y polisïau'n ymwneud â phlant a phobl ifanc gan ganolbwyntio ar y ddogfen "Ymestyn Hawliau", a chafwyd cyflwyniadau gan bobl ifanc yn ogystal â'r sector gwirfoddol a llywodraeth leol. |
| 30 Mawrth | | Gohiriwyd y cyfarfod oherwydd argyfwng clwy'r traed a'r genau. |
| 18 Mai | Aberystwyth. | Trafododd y Pwyllgor yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad, a chafwyd cyflwyniadau gan Dr Dafydd Trystan o Brifysgol Cymru Aberystwyth, Cyngor Sir Ceredigion a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. |
| 13 Gorffennaf | Llanidloes | Trafododd y Pwyllgor ynni adnewyddadwy â chyrff megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. |

**Blaenraglen waith**

7. [Bydd strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer yr henoed yn cael ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 2 Tachwedd. Mae'r cyfarfod ar 7 Rhagfyr yn debygol o ganolbwyntio ar adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg]. Bydd y Cadeirydd newydd, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau eraill, yn datblygu'r rhaglen waith er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i ddarparu cyswllt rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r cymunedau lleol yn y rhanbarth.

**Casgliad**

8. Mae Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth yn cyflawni rôl bwysig fel cyswllt rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r bobl y mae'n eu cynrycholi yn y rhanbarthau. Bydd angen parhau i ddatblygu'r cyswllt hwn ac annog mwy o gyfranogiad yn y cyfarfodydd. Mae dull y Pwyllgor o weithio wedi datblygu yn ystod y flwyddyn, gan symud oddi wrth rôl archwilio a thuag at gyfrannu at y broses o ddatblygu polisïau'r Cynulliad. Ymddengys mai dyma'r rôl fwyaf effeithiol ar gyfer y pwyllgorau rhanbarth ac y bydd yn parhau yn ystod y sesiwn nesaf.

**Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth**

Gorffennaf 2001